# Gweithio hyblyg

Mae gweithio hyblyg yn ymadrodd amlbwrpas sy’n addas ar gyfer unrhyw amrywiad contract i’r oriau gwaith neu’r gweithle safonol. Mae’n cynnwys cyflogaeth ran-amser, oriau o waith ychwanegol a gronnwyd dros gyfnod penodol, swydd-rannu,, contractau dros dro a gwaith shifft. Mae hefyd yn ymestyn y gweithle i unrhyw safle allanol a allai gynnwys cartref y cyflogai, adeiladau’r cwsmer neu bartner busnes, hotel neu gaffi, neu fan WiFi.

Mae’n fwriad gan y Llywodraeth ymestyn yr hawl i ofyn am amrywiad oriau a man gwaith i bob cyflogai. Os felly, bydd rhaid i gyflogwr ystyried unrhyw gais mewn modd rhesymol, tra’n cadw’r hawl i wrthod cais am resymau busnes.

Yn ymarferol, diolch i dechnolegau galluogi sy’n cynnwys Band Eang Uwchgyflym, Cyfathrebu Unedig, cyfrifiadura cwmwl ac amrywiol ddyfeisiau sy’n galluogi mynediad symudol at gymwysiadau busnes, mae nifer o gwmnïau wedi croesawu ac yn gwneud defnydd o rai o’r manteision, o leiaf, sy’n deillio o weithio hyblyg.

## Rôl technoleg mewn gweithio hyblyg

Yn ogystal â Band Eang Uwchgyflym, mae sawl tueddiad technoleg arall yn chwarae rhan allweddol ym mhoblogrwydd cynyddol gweithio hyblyg.

### Cyfathrebu Unedig

Term sy’n perthyn i’r diwydiannau technoleg uwch yw Cyfathrebu Unedig (CU) ar gyfer systemau sy’n cyfuno cyfathrebu llais, data a fideo dros yr un rhwydwaith diogel, gan ddefnyddio’r Protocol Rhyngrwyd (IP). Ceir pecynnau sydd wedi eu datblygu’n benodol ar gyfer BBaChau am bris rhesymol. Maent yn golygu bod rheoli seilwaith yn fwy syml ac yn integreiddio cymwysiadau busnes megis Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) gyda’r rhwydwaith teleffoni yn ogystal â rhoi darlun cyflawn i’r busnes o leoliad ac argaeledd y gweithiwr.

### Rhwydweithiau Preifat Rhithwir

Mae’r mwyafrif o systemau CU yn cynnwys yr opsiwn o sefydlu Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN), sef rhwydweithiau sy’n defnyddio seilwaith gyhoeddus, megis y rhyngrwyd neu’r cwmwl, i roi mynediad diogel symudol ac o bell i staff at gymwysiadau a systemau busnes. Gall VPN olygu arbedion mawr ar gostau o’u cymharu â llinellau drud ar brydles.

### Cysylltedd symudol

Mae ‘Dod â’ch Dyfais eich Hun’( Bring Your Own Device - BYOD) yn arfer sy’n adlewyrchu disgwyliadau gweithwyr i fedru cael gafael ar offer a chymwysiadau busnes drwy gyfrwng eu ffôn clyfar neu lechen eu hunain, waeth lle maent yn digwydd bod.

Cafodd y newid diwylliannol hwn ei ddylanwadu gan argaeledd eang gwasanaethau band eang cyflym a mannau WiFi. Gyda dyfodiad 3G yn gyntaf, ac yna 4G, mae rhwydweithiau'n golygu y disgwylir yn hytrach nag y gobeithir am gysylltiadau data diwifr o ansawdd corfforaethol. Gyda chymorth nodweddion diogelwch systemau CU, gallwch roi mynediad o bell i'ch staff drwy'r rhwydwaith symudol a thrwy cgysylltiadau band eang yn eu cartrefi eu hunain.

**Cyfrifiadura cwmwl**

Y dyddiau hyn, mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i fusnesau ddewis prynu cymwysiadau a systemau fel gwasanaethau yn hytrach na gwario arian ac amser ar y seilwaith angenrheidiol i'w rhedeg yn fewnol. Gall teclynnau megis Skype neu FaceTime,er enghraifft, fod yn wasanaethau fideogynadledda cost-isel derbyniol iawn ar gyfer gweithwyr pell a symudol.

Gellir ffynonellu nifer o'r cymwysiadau hyn o'r cwmwl, sef term eithaf niwlog ar gyfer gwasanaethau a letyir sy'n cynnwys popeth o fynediad rhyngrwyd at rannu dogfennau ac offer a rennir, i storio data a llwyfannau datblygu cymwysiadau. Trwy gael gwared â'r seilwaith, gall cyfrifiadura cwmwl fod yn offeryn craidd wrth roi strategaeth gweithio hyblyg ar waith.

## Pa fanteision busnes allaf eu disgwyl?

**Cadw staff**

Mae arolygon agweddau staff yn dangos drwodd a thro fod gweithwyr yn ystyried gweithio hyblyg yn gymhelliant i aros gyda busnes. Yn ôl yn 2009, canfu tasglu o'r Adran Gwaith a Phensiynau fod 65% o gyflogwyr wedi gweld gwelliant yn eu cyfraddau cadw staff a recriwtio wedi iddynt roi polisïau gweithio hyblyg ar waith - a nododd 58% o BBaChau iddynt weld cynnydd yn eu cynhyrchiant.

Mae staff yn fuddsoddiad sylweddol mewn gwybodaeth am gwsmeriaid ac eiddo deallusol eich busnes. Felly mae'n synhwyrol bod yn hyblyg a threfnu ar gyfer digwyddiadau mawr bywyd megis cael plant,, lleoliadau cartref hirbell, a chael hyd i ffyrdd i gadw staff drwy sefydlu strwythurau gwaith gwahanol, yn hytrach na wynebu'r posibilrwydd o'u colli.

**Staff hunan-ysgogol**

Os ydy staff yn teimlo eu bod yn cael eu hymddiried a'u gallugoi i weithio i ffwrdd o'r swyddfa – adref, er enghraifft, yn ystod 'amser segur' megis pan fyddent fel arfer yn cymudo neu'n disgwyl rhwng apwyntiadau, neu ar safle cwsmer neu bartner – byddant yn fwy cynhyrchiol.

Gallant gadw mewn cysylltiad trwy gyfarpar fideogynadledda neu offer cydweithredu o bell fydd yn eu helpu i gadw cysylltiad gyda'i gilydd ac yn rhan o'r busnes. Os ydych yn betrusgar am draddodi rheolaeth i fyd rhithwir, gallech drefnu i gwrdd yn y cnawd o dro i dro er mwyn creu fframwaith ychwanegol.

Yn ogystal ag arbedion costau teithio sylweddol i’ch cwmni, bydd lles eich cyflogeion yn gwella wrth iddynt osgoi’r straen o gymudo’n ddyddiol. Os na all eich staff deithio i’w swyddfa oherwydd tywydd garw neu ddiffyg cludiant, mae technoleg heddiw’n eu rhyddhau i weithio’r un mor effeithiol o leoliad amgen.

**Newid diwylliannol**

Peidiwch a cholli allan trwy danbrisio potensial gweithio hyblyg i greu newid diwylliannol positif ar draws eich busnes.  Mae’n newid y pwyslais o fewnbynnau a gweithgareddau sy’n wedi eu clymu i adeg penodol (y diwrnod gwaith traddodiadol) i gyflawniadau ac allbynnau eich staff mewn gwirionedd.

Trwy alluogi gweithio a chydweithredu o bell, nid colli rheolaeth fyddwch chi. Yn hytrach, mae’r union adnoddau sy’n gallugoi eich pobl i gydweithio hefyd yn fodd i chi eu monitro a’u rheoli a chadw llygad ar eu hallbynnau.

Mae’r amrywiaeth eang o dyfeisiau llaw, sef ffonau clyfar, llechi, a hyd yn oed sganwyr a phennau digidol,s ‘yn golygu y gallwch gwblhau tasgau y byddech yn y gorffennol yn gorfod eu gwneud â llaw megis llenwi ffurflenni ac adrodd, yn y fan â’r lle wrth deithio neu ar safle cwsmer. Gallwch gael amryfal gymwysiadau ac adnoddau busnes pwerus ar y cymwysiadau a’r teclynnau hyn. A gellir cael gwared bron yn llwyr ar yr oedi arferol sy’n cael ei achosi gan gyfathrebu traddodiadol ar bapur.

**Newid trefniadaethol**

Dros gyfnod o amser, fe allai gweithio hyblyg hefyd gael effaith bositif ar eich strategaeth recriwtio. Fe allech ei chael hi’n haws recriwtio staff da a blaengar sy’n cael eu denu gan y posibilrwydd o fod â mwy o ryddid i reoli eu hamser a’u hadnoddau. Fe allai hefyd eich galluogi chi i ymateb yn fwy sydyn i gyfleoedd busnes trwy gyflogi staff ar gontractau dros dro, rhan-amser neu dymor byr..

**Gwell cysylltiadau cwsmer a chysylltiadau partner**

Gall polisïau gweithio hyblyg eich helpu chi i ymestyn eich oriau busnes trwy ddarparu gwasanaeth cwsmer mwy amrywiol. Er enghraifft, mae’n bosib y byddai’n well gan rai aelodau o’ch staff gywasgu eu horiau mewn i lai o ddyddiau hirach, ac yn well gan eraill ddechrau a gorffen gwaith yn gynt neu’n hwyrach.

Gall staff symudol mewn safleoedd cwsmer hefyd ddarparu gwasanaeth mwy rhagweithiol hefyd gan fod ganddynt fynediad ar unwaith at systemau a gwybodaeth y cwmni drwy gyfrwng eu dyfais.

Mae gweithio hyblyg hefyd yn agor y drws ar gyfer cydweithredu agosach â phartneriaid busnes a allai elwa o fod ag aelod o’ch staff chi’n gweithio ar eu safle hwy yn rheolaidd neu ar sail ad hoc. Bydd y dechnoleg sy’n galluogi gweithio symudol hefyd yn galluogi eich cyflogai chi i drin lleoliad eich partner fel estyniad i’ch swyddfa.

**Gostyngiad mewn costau swyddfa a TG**

Os ydy'ch busnes chi'n gwario £8,000 ar gyfartaledd bob blwyddyn i gynnal pob desg yn eich swyddfa, fe allai gweithio hyblyg ostwng eich gorbenion trwy alluogi staff i weithio o gartref. Yr unig gost i chi fydd cost y cysylltiad band eang fydd ei angen arnynt yn y lle cyntaf i gael mynediad at eich systemau busnes.

Yn ddibynnol ar natur a maint eich busnes, fe allai gweithio hyblyg hefyd eich galluogi chi i leihau eich buddsoddiad mewn seilwaith TG. Trwy gyfuno eich strategaeth gyfathrebu a mynediad at lwyfan CU, fe allech leihau nifer o'r costau traddodiadol, yn enwedig galwadau llais, gan y byddai'r rhain bellach am ddim trwy eich rhwydwaith IP.

Ac wrth gwrs, mae'r cyfuniad o lai o galedwedd yn y swyddfa a llai o deithio'n lleihau maint eich ôl troed carbon ogystal â'ch biliau ynni a thanwydd.

## Sut mae cychwyn arni?

Bu trafod brwd o blaid ac yn erbyn gweithio hyblyg wedi i'r Llywodraeth grybwyll y gallai'r drefn fod ar gael i bob cyflogai. Ond mae sawl un yn cytuno, heb ystyried gofynion cyflogeion unigol, fod y mwyafrif o fusnesau'n elwa o strategaeth gweithio hyblyg ar ryw lefel neu'i gilydd.

Felly'n hytrach nag aros tan i staff ofyn, edrychwch ar y meysydd hynny o'r busnes y byddai'n synhwyrol rhoi rhywfaint o weithio hyblyg ar waith ynddynt, er enghraifft, darwahanu oriau gwaith i osgoi teithio yn ystod oriau brig, er enghraifft, neu osod cymwysiadau sylfaenol yn y cwmwl.

## Prif Gynghorion

**Adolygwch eich cysylltiad band eang cyn cymryd unrhyw gamau**

Mae Cyfathrebu Unedig angen cysylltedd band eang uwchgyflym dibynadwy.

**Ystyriwch osod cymwysiadau dydd i ddydd yn y cwmwl**

Mae'r cwmwl yn eich galluogi chi i gydweithredu a rhannu dogfennau, i lenwi ffurflen a chyflawni nifer o dasgau'n ddiogel o ffôn clyfar neu lechen gyda dim ond un cyfrinair.

**Adolygwch eich polisi diogelwch**

Os ydych yn annog diwylliant lle mae staff yn defnyddio eu dyfeisiau personol, rhaid i chi sicrhau fod mynediad at systemau busnes yn ddiogel ac yn cael ei reoli.

**Byddwch yn barod am geisiadau i weithio'n hyblyg**

Mae'r Llywodraeth yn dod â deddfwriaeth ger bron a fydd yn golygu fod gweithio hyblyg ar gael i bawb ond yn hytrach na disgwyl i staff wneud cais, aseswch y manteision ehangach i'ch busnes yn awr.

**Cadwch feddwl agored**

Tydy gweithio hyblyg ddim yn golygu colli awdurdod. Yn hytrach, mae'n golygu gadael i'r staff gymryd cyfrifoldeb am eu cyfraniad i'ch cwmni boed hynny o gartref neu o gaffi.